# Cylchlythyr YGG Llwynderw/*YGG Llwynderw Newsletter*

## 09.05.2025

Rydym ni yn garedig. *We are kind*

Rydym ni yn gwneud ein gorau glas. *We do our very best*

Rydym ni yn barchus. *We are respectful*

| | |
|---|---|
| Patrwm yr wythnos/ *Pattern of the week* | Bag fi/ chwaer fi X<br>Fy mag/ fy chwaer |
| Idiom yr wythnos / *Idiom of the week* | Uchel ei gloch<br>Uchel ei chloch<br>*Loud mouthed* |
| Testun trafod yr wythnos *Discussion topic of the week* | Y peth gorau am ein hysgol ni yw…<br>*The best thing about our school is….* |
| Artist Cerddorol y Mis *Musician of the month*<br>Bardd y mis/ *Poet of the month* | Candelas<br>Eurig Salisbury |

### Wythnos Dysgu Awyr Agored

**Byddwn yn dathlu 'Wythnos Awyr Agored' unwaith eto cyn bo** hir ac rydym yn gofyn yn garedig am roddion o hadau, planhigion gwely a chompost. Er mwyn sicrhau amrywiaeth dda o liwiau rydym yn gofyn am:

* Meithrin a derbyn - amryliw
* Blynyddoedd 1 a 2 - melyn ac oren
* Blynyddoedd 3 a 4 - pinc a phorffor
* Blynyddoedd 5 a 6 - gwyn a hufen

Byddem yn ddiolchgar iawn pe bai unrhyw roddion yn cael eu gadael yng nghyntedd yr ysgol. Diolch!

### *Outdoor Learning Week*

***We will soon be celebrating 'Outdoor Week' once again and*** *are kindly asking for donations of seeds, bedding plants and compost. To ensure a good variety of colours we are asking for:*

* *Nursery and reception - multi-coloured*
* *Years 1 and 2 - yellows and orange*
* *Years 3 and 4 - pink and purple*
* *Years 5 and 6 - white and cream*

*We would be very grateful if any donations could be left in the school foyer. Thank you!*

### Hawl y mis/ *Right of the month*

Yr hawl i safon byw dda

*The right to a good standard of living*

### % Presenoldeb/ *Attendance* %

Ers dechrau tymor *Since the start of term*: **93.9%**

Ein targed/ *Our target:* **97.5%**

### Child's Play

Fe fydd gwasanaeth gofal plant Child's Play yn gyfrifol am wasanaeth cofleidio'r ysgol o fis Medi 2025. Os oes gyda chi unrhyw gwestiynau cysylltwch gyda nhw yn uniongyrchol. Rydym yn edrych ymlaen at gydweithio gyda nhw.

*From September 2025 Child's Play will be responsible for the wraparound childcare provision. If you have any questions or queries, please contact them directly. We look forward to working with them.*

admin@childsplayswansea.co.uk

### Lluniau dosbarth diwedd cyfnod allweddol - 16/05/2025

Bydd lluniau grŵp yn cael eu tynnu eto eleni o blant sydd wedi cyrraedd diwedd cyfnod allweddol; **meithrin, disgyblion blwyddyn 2 ac ymadawyr blwyddyn 6.** Os na wnaethoch chi roi caniatâd pan wnaethoch chi archebu lluniau unigol gyda Roz a Kirsty y llynedd, a fyddech cystal â gwneud hynny trwy ddilyn y ddolen hon...

### End of key stage class photos - 16/05/2025

Group photos will be taken again this year of children who have reached the end of a key stage; **nursery, year 2 and year 6 leavers**. If you didn't give permission when you booked individual photos with Roz and Kirsty last year, please could you do so by following this link...

https://randk.uk/register/llwynderw?pin=8940


**Cysylltwch â ni! *Conatct us!***

Gwefan / *Website:* yggllwynderw.co.uk Rhif ffon/ Telephone no. : 01792 407130

E-bost/ *e-mail:* 6702235_yggllwynderw@hwbcymru.net